



DARLLENWCH  
Genesis 24: 28-67



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Salm 144:15

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i ddod  
o hyd i'r adnod


## Dewis Duw

Rhedodd Rebeca adref i ddweud wrth ei theulu beth oedd wedi digwydd. Yna, rhedodd ei brawd, Laban, at y ffynnon i nôl y gwas a rhoi croeso iddo. Ond cyn bwyta'i swper hyd yn oed, roedd rhaid i'r gwas gael dweud wrth deulu Rebeca pam yr oedd wedi dod yno.

**C** Ysgrifennwch yr atebion i'r cwestiynau isod yn y Grid Geiriau.

3

1. Pwy ddywedodd wrth ei theulu am y gwas?
2. Lle gadawodd Rebeca y gwas?
3. Pwy redodd i groesawu'r gwas?



1

R						L
---	--	--	--	--	--	---

2

Ff						
----	--	--	--	--	--	--

6

Yna, soniodd y gwas wrthyn nhw am Isaac a gofyn a gâi Rebeca fynd yn ôl gydag ef. Atebodd ei thad a Laban gan ddweud: "Oddi wrth yr Arglwydd y daeth hyn. Caiff Rebeca fod yn wraig i Isaac fel y dywedodd yr Arglwydd."

**C** Ysgrifennwch yn y swigen siarad beth ddywedodd tad Rebeca a Laban.

"Oddi wrth yr  
A \_\_\_\_\_  
y daeth hyn"

5

Yn y bore, gofynnwyd i Rebeca a oedd hi'n fodlon mynd gyda'r gwas a phriodi Isaac. Cytunodd Rebeca i fynd. Roedd Rebeca'n or-nith i Abraham, sy'n golygu eu bod yn perthyn.

Roedd Duw wedi ateb gweddi'r gwas mewn ffordd ardderchog. Roedd wedi'i arwain at y ferch yr oedd Ef wedi'i dewis i Isaac ei phriodi.

**C** Rhowch ✓ wrth y frawddeg gywir.


Tad Rebeca oedd wedi trefnu popeth. ....  
Duw oedd wedi dewis Rebeca'n wraig i Isaac. ....  
Gorfododd y gwas Rebeca i fynd gydag ef. ....



3

Nôl yng nghartref Abraham, roedd Isaac yn disgwyl ac yn meddwl tybed beth oedd yn digwydd. Un noson, aeth allan am dro a gweld y camelod yn dod. Cyn hir, cafodd groesawu Rebeca i'w chartref newydd a mynd â hi i babell ei fam.

**C** Cysylltwch y dotiau i gael gweld cartref newydd Rebeca.



3

Roedd Isaac yn caru Rebeca'n fawr iawn ac fe ddaeth hi'n wraig iddo. Roedden nhw'n hapus iawn gyda'i gilydd am mai Duw oedd wedi dewis Rebeca'n wraig i Isaac.

Byddwn ni'n hapus ac yn llawen hefyd os dewiswn ni lesu ac ymddiried ynddo i fod yn Geidwad, yn Ffrind ac yn Arweinydd i ni.

**C** Llanwch y bylchau:

Un noson, gwelodd I \_\_\_\_\_ y camelod yn dod.  
Aeth Isaac â R \_\_\_\_\_ i babell ei fam.  
Daeth y ddau'n \_\_\_\_\_ a g\_\_\_\_\_.

3

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. PO. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.  
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)  
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120